**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**20 EBRILL 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 20 Ebrill 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Hilary McGuill (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mel Buckley, Tina Claydon, Paul Cunningham, Rob Davies, Carol Ellis, Gladys Healey, David Mackie a Debbie Owen.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Jean Davies a Linda Thomas

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles; Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch-Reolwr – Diogelu a Chomisiynu; Uwch-Reolwr ar gyfer Plant a Gweithlu, ac Uwch Reolwr ar gyfer Oedolion.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

## 54. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 55. COFNODION

Cadarnhaodd y Cynghorydd Mackie ei fod wedi siarad gyda Mr James Hunt gan Nanny Biscuit mewn perthynas i rannu syniadau fel y nodwyd yn nhudalen 7 y cofnodion ar 2 Mawrth 2023.

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2023 eu cynnig gan y Cynghorydd David Mackie ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Debbie Owen.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 56. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol cyfredol yn nodi nad oedd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r eitemau a oedd wedi'u rhestru. Bydd dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol o fis Medi yn cael eu hychwanegu ar ôl iddynt gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo yn y cyfarfod blynyddol o'r Cyngor i'w gynnal ar 4 Mai 2023.

Gofynnodd y Cynghorydd Ellis i ychwanegu eitem ynghylch Mynediad at Feddygon teulu oherwydd y nifer o gwynion yr oedd wedi'i gael am bobl yn methu â chael apwyntiadau Meddyg Teulu. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Ellis ysgrifennu ati gyda'r problemau yr oedd wedi'i gael, ac yna byddai'n ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ran y Pwyllgor.

Hefyd roedd y Cadeirydd eisiau ychwanegu eitem ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i drafod yn y Cyd-gyfarfod nesaf gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant, ac yr oedd wedi trafod gyda'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) cyn dechrau'r cyfarfod.  Dywedodd y Prif Swyddog ei fod wedi cael cyflwyniad cadarnhaol gan unigolyn ifanc gydag anabledd a oedd yn hunan-eiriolwr ac wedi helpu ei hun ac eraill i mewn i'r byd gwaith, ac wedi awgrymu ei bod yn cael ei gwahodd i roi cyflwyniad i Aelodau yn y cyfarfod ar y cyd sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin.  Roedd y Pwyllgor o blaid yr awgrym hwn.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'u heilio gan y Cynghorydd David Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

Oherwydd problemau technegol, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod yn cael ei ohirio a'i ail-drefnu ar ddyddiad arall i ganiatáu ystyried yr eitemau sydd ar ôl ar y rhaglen.  Bydd hysbysiad o amser a dyddiad y cyfarfod yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor cyn gynted â phosib.

**57. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 2.16pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**